

Kevin Bakhurst

Grŵp Polisi Cyfryngau a Chynnwys

E-bost: BBCScotland.Assessment@ofcom.org.uk

Chris Rowsell
BBC
Broadcasting House
Portland Place
Llundain
W1A 1AA

11 Ionawr 2018

Annwyl Chris,

Casgliad asesiad cychwynnol o sianel deledu arfaethedig BBC Scotland

Ar 30 Tachwedd 2017, cyhoeddodd y BBC ei gynnig i lansio sianel deledu newydd ar gyfer cynulleidfaoedd yn yr Alban. Ar yr un pryd, fe wnaethom ni gychwyn ein hadolygiad ein hunain i benderfynu a ddylid caniatáu i gynllun y BBC fynd yn ei flaen.

Bwriad y llythyr hwn yw rhoi gwybod i chi ein bod wedi cwblhau cam cyntaf ein hadolygiad ac wedi dod i'r casgliad ei fod yn golygu newid sylweddol sy'n galw am asesiad pellach.

Fel y gwyddoch, mae Ofcom yn dymuno gweld cynulleidfaoedd yn yr Alban yn cael gwasanaeth da gan y BBC. Ein tasg ni yn y cam nesaf fydd ystyried a fyddai'r gwerth cyhoeddus sy'n cael ei gynnig gan sianel newydd y BBC yn cyfiawnhau unrhyw effeithiau niweidiol posibl y gallai eu hachosi ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

Rydym yn esbonio isod ein penderfyniad i gynnal Asesiad Cystadleuaeth ('BCA') ar y cynigion, y mae'n rhaid i ni ei gwblhau erbyn 11 Gorffennaf 2018.

Cefndir

Cenhadaeth y BBC yw gweithredu er lles y cyhoedd, gan wasanaethu pob cynulleidfa drwy ddarparu cynnyrch a gwasanaethau diduedd, unigryw o ansawdd uchel sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu. Er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i ddarparu rhaglenni sy'n cyflawni ei genhadaeth, gall y BBC edrych ar newid ei weithgareddau presennol neu geisio datblygu gwasanaethau newydd i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd.

Mae modd ystyried bod rhai newidiadau yn rhai bach, er enghraifft penderfyniadau golygyddol o ddydd i ddydd am raglenni unigol neu eu hamserlen. Serch hynny, gan fod y BBC yn sefydliad mawr sy'n cael arian cyhoeddus, gallai newidiadau eraill y mae'n dymuno eu gwneud effeithio'n sylweddol ar gystadleuaeth yn y farchnad cyfryngau ehangach.

Dan delerau'r Cytundeb Fframwaith¹, ni chaiff y BBC wneud 'newid sylweddol'² i'w Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU oni fo'r BBC yn dod i'r casgliad fod unrhyw gynnig o'r fath yn bodloni Prawf Lles y Cyhoedd ('PIT'). A bryd hynny, ni fydd Prawf Lles y Cyhoedd yn cael ei fodloni ond os bydd Bwrdd y BBC yn penderfynu:

- a) bod y cynnig arfaethedig yn cyfrannu at genhadaeth y BBC ac at hyrwyddo o leiaf un o'r dibenion cyhoeddus;
- b) bod camau rhesymol wedi cael eu cymryd i sicrhau na fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau niweidiol diangen ar gystadleuaeth deg ac effeithiol; a,
- c) bod gwerth cyhoeddus y newid arfaethedig yn cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

Yn yr achos hwn, daeth y BBC i'r casgliad y byddai ei gynnig i lansio sianel BBC Scotland yn golygu newid sylweddol i'w wasanaethau a chynhaliodd brawf lles y cyhoedd (PIT) yn ystod haf 2017. Cyhoeddodd y BBC ganfyddiadau ei brawf PIT, ynghyd â thystiolaeth ategol, ar 30 Tachwedd 2017, gan ddatgan bod Bwrdd y BBC o'r farn i'r PIT gael ei fodloni.³

Rôl Ofcom

Os yw Bwrdd y BBC yn dod i'r casgliad bod Prawf Lles y Cyhoedd wedi'i fodloni, rhaid i Ofcom gynnal ei asesiad ei hun o'r cynigion cyn y gellir rhoi newid ar waith.

Mae'r Cytundeb Fframwaith yn rhannu gwaith Ofcom yn ddau gam. Yn ystod y cam cyntaf, y mae'n rhaid ei gwblhau o fewn chwe wythnos, mae'n ofynnol i Ofcom wneud y canlynol:

- a) cadarnhau a yw cynnig y BBC yn un sylweddol; ac, os felly
- b) penderfynu ar ba ffurf y dylai ein hasesiad manwl fod yn ystod yr ail gam.

I'n cynorthwyo i wneud hyn, ar 30 Tachwedd 2017 fe wnaethom gyhoeddi Gwahoddiad i Gyflwyno Sylwadau gan ofyn i randdeiliaid roi gwybodaeth bellach i ni yn esbonio sut y gallai lansio sianel deledu newydd gan y BBC ar gyfer yr Alban effeithio arnynt hwy.⁴ Fe wnaethom ddweud y byddem yn ystyried, yn ystod y cyfnod cychwynnol hwn, a oedd Prawf Lles y Cyhoedd y BBC yn cynnwys gwybodaeth ddigonol i'n galluogi i gwblhau asesiad mwy manwl yng ngham dau; ac, os yn bosibl, y byddem yn bwriadu adolygu'r gweithdrefnau a ddilynwyd gan y BBC yn ystod ei ymgynghoriad ar y PIT.

¹ Cymal 7(6) y Cytundeb rhwng Ysgrifennydd Gwladol Ei Mawrhydi dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig, Rhagfyr 2016.

² Caiff newid sylweddol ei ddiffinio yn y Cytundeb fel un pan fydd y BBC yn cynnig naill ai darparu "gwasanaeth cyhoeddus newydd yn y DU" neu wneud newid "a all gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol" (cymal 7(7)).

³ [Penderfyniad Bwrdd y BBC ar Brawf Lles y Cyhoedd sianel deledu BBC Scotland](#)

⁴ [Adolygiad Ofcom o sianel deledu arfaethedig BBC Scotland - gwahoddiad i gyflwyno sylwadau](#)

Cynnig y BBC

Nodir cynnig y BBC yn ei Brawf Lles y Cyhoedd, sy'n datgan fel a ganlyn:

- Y byddai'r sianel newydd yn dechrau darlledu am 12 hanner dydd bob dydd. Byddai rhaglenni newydd a fyddai'n cael eu dangos rhwng 12 hanner dydd a 7pm yn cynnwys rhaglenni gwleidyddol a "digwyddiadau ad hoc eraill (chwaraeon yn bennaf)" ac y byddent yn cael eu cyfyngu i 150 awr y flwyddyn.⁵ Yn ystod cyfnodau eraill hyd at 7pm byddai'r sianel yn dangos "gwasanaeth cynhaliol/cyd-ddarlledu â rhaglenni BBC Two";

byddai'r sianel yn parhau i ddarlledu o 7pm tan hanner nos bob gyda'r nos, gyda'r cynnwys yn ystod yr oriau hyn yn cynnwys 50% o raglenni gwreiddiol yn cael eu dangos am y tro cyntaf a rhaglenni wedi'u prynu, a 50% o ailddarllediadau;⁶-

- byddai ychydig dros 19% o'r cynnwys gwreiddiol fyddai'n cael ei ddangos yn ystod yr oriau craidd gyda'r nos yn newyddion a materion cyfoes, gan gynnwys awr newyddion i'w darlledu am 9pm bob dydd yn ystod yr wythnos "ochr yn ochr â chymysgedd o raglenni dogfen, rhaglenni ffeithiol arbenigol, ffordd o fyw, cerddoriaeth, cwisiau a rhaglenni adloniant ffeithiol". Gallai'r rhaglenni hyn gynnwys deunydd sy'n cael ei ddangos ar hyn o bryd ar BBC Two Scotland, ac un ai cyd-ddarlledu neu ailddarlledu cynnwys a ddangoswyd ar BBC One Scotland. Gellid hefyd ailddarlledu rhaglenni o sianeli eraill y BBC (e.e. BBC Four) neu raglenni o'r archif ; a
- byddai cyllideb y sianel ar gyfer rhaglenni oddeutu £32 miliwn am flwyddyn lawn, er y gallai hyn gael ei effeithio gan gyd-gomisiynu rhaglenni gyda gwasanaethau eraill y BBC, yn enwedig yn 'genres' comedi a drama.

Yn ogystal, nododd y BBC y byddai'r cynnig hwn yn achosi rhai newidiadau cysylltiedig:

- byddai rhaglenni ar wahân ar gyfer yr Alban ar BBC Two yn dod i ben, ac yn lle hynny byddai cynulleidfaoedd yn yr Alban yn derbyn yr un rhaglenni â chynulleidfaoedd yn Lloegr;
- byddai ffrwd diffiniad safonol BBC Four yn symud i "slot llai amlwg ar yr EPG yn yr Alban" i wneud lle ar gyfer y sianel newydd;
- gallai cyfleoedd ar gyfer traws-gomisiynu "arwain at ddarparu hyd at 100 o oriau ychwanegol o gynnwys heb fod yn newyddion ar BBC Alba bob blwyddyn"; a
- byddai "tîm casglu newyddion aml-lwyfan wedi'i gadarnhau" gydag oddeutu 80 o swyddi cysylltiedig â newyddiaduraeth yn amrywio o ran profiad o rai newydd i'r maes i newyddiadurwyr profiadol". Ymhlith pethau eraill, byddai'r tîm hwn yn cynhyrchu rhaglenni newyddion pellach neu'n ailwampio cynnwys ar gyfer y radio, i'w ddefnyddio ar y wefan (gyda ffocws arbennig ar ddarnau hirach, mwy ymchwiliol) a chyfryngau cymdeithasol, gan

⁵ Nododd y PIT bod BBC Two Scotland ar hyn o bryd yn dangos oddeutu 66 awr o raglenni gwleidyddol, 30 awr o chwaraeon a 44 awr o ddiwyddiadau byw yn ystod y dydd bob blwyddyn.

⁶ Mae "cymysgedd cynnwys dangosol" manwl ar gyfer y sianel wedi'i nodi ar tt 20-21 dogfen PIT y BBC.

alluogi ystod gyfoethocach o newyddiaduraeth, gyda mwy o ddyfnder iddi, ar draws llwyfannau.”

Er na wnaeth y BBC gynnwys y newidiadau hyn o fewn cwmpas y PIT, fe wnaeth gydnabod y potensial i'r newidiadau hyn yn deillio o'i gynnig craidd, gael effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

Rydym yn ystyried mai'r gweithgareddau a nodir uchod, o'u cymryd gyda'i gilydd, yw cynnig y BBC i roi Gwasanaeth Cyhoeddus newydd ar waith yn y DU. Mae ein hasesiad o ran pa mor sylweddol ydyw ac o ran unrhyw asesiad pellach, yn seiliedig felly ar yr holl gynigion hyn.

Yr hyn a ddywedodd rhanddeiliaid wrthym

Mewn ymateb i'n Gwahoddiad i Gyflwyno Sylwadau, derbyniwyd 17 o ymatebion gan randdeiliaid.

Yr oedd llawer o ymatebwyr yn croesawu cynnig y BBC, gan gydnabod ei werth posibl i gynulleidfaoedd yr Alban a'r budd ar gyfer twf yn sector cyfryngau'r Alban. Fodd bynnag, cododd ymatebwyr nifer o bryderon hefyd. Yr oedd rhai'n cwestiynu a oedd y sianel yn cael ei hariannu'n ddigonol i ddarparu gwasanaeth o ansawdd, gan gynhyrchu gwerth cyhoeddus sylweddol. Yr oedd eraill o'r farn y gallai cynnig y BBC gael effaith sylweddol ar draws y sector cyfryngau, yn benodol drwy atal cystadleuaeth. Yn olaf, heriodd llawer o ymatebwyr yr hyn yr oeddynt yn ei ystyried yn ddiffyg manylion yng nghynnig y BBC, ac absenoldeb y dadansoddiad economaidd manwl a ddefnyddiwyd gan y BBC i wneud ei asesiad o'r effaith bosibl ar y farchnad.

Yr oedd yr holl ymatebwyr yn cytuno fod y cynnig yn cynrychioli newid sylweddol i Wasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU. Yr oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn y byddai'n briodol i Ofcom asesu cynigion y BBC drwy Asesiad Cystadleuaeth (BCA). Fodd bynnag, yr oedd rhai'n ffafrio Asesiad Byrrach gan eu bod o'r farn y gallai BCA achosi oedi o ran lansio gwasanaeth arfaethedig y BBC.

Pa mor sylweddol yw'r cynnig

Rhaid i Ofcom gynnal asesiad cystadleuaeth os ydym o'r farn bod cynnig y BBC yn newid sylweddol i Wasanaethau Cyhoeddus y DU.

Mae'r Cytundeb Fframwaith yn egluro bod cynnal unrhyw weithgarwch fel Gwasanaeth Cyhoeddus newydd yn y DU yn newid sylweddol.

Yn dilyn ein hadolygiad o gynnig y BBC, ynghyd â mewnbwn a dderbyniwyd gan randdeiliaid, rydym yn fodlon bod cynnig y BBC yn golygu Gwasanaeth Cyhoeddus newydd yn y DU. O'r herwydd, rydym wedi dod i'r casgliad fod hwn yn newid sylweddol i Wasanaethau Cyhoeddus y DU.

Lle ar gyfer asesiad pellach

- Dan y Cytundeb Fframwaith, rhaid i'n hasesiad cam dau fod ar ffurf un ai Asesiad Cystadleuaeth (BCA) neu Asesiad Byrrach (SA). Yn ein dogfen arweiniad, *Assessing the impact of proposed changes to the BBC's public service activities*, rydyn ni'n egluro⁷:
 - a) mae BCA yn fwy tebygol o fod yn briodol "pan fydd cynnig yn codi materion mawr, cymhleth a/neu arbennig o ddadleuol, a allai gynnwys nifer o bartïon sydd â diddordeb a ffyrdd lle gallai fod effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol"; ond
 - b) mae Asesiad Byrrach yn debygol os "oes ystod lai o faterion i'w hystyried," er enghraifft pan fyddwn yn ystyried bod prawf lles y cyhoedd y BBC "yn rhoi sylw digonol i'r holl faterion (neu'r rhan fwyaf)".

Yn ein dogfen Arweiniad rydym yn nodi'r ffactorau yr oeddem yn disgwyl eu hystyried wrth benderfynu pa asesiad oedd fwyaf priodol, gan gynnwys:⁸

- trylwyredd, ansawdd a chydbwysedd PIT y BBC;
- tebygolrwydd canlyniad gwahanol i glirio diamod;
- a oes elfen wahanadwy o'r cynnig sy'n achosi pryder, tra bod yr elfennau eraill yn achosi fawr o bryderon; a
- pha mor gymesur yw'r adnoddau sydd eu hangen.

Rydym yn cydnabod y gallai cynnig y BBC olygu nifer o ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer cynulleidfaoedd yn yr Alban. Gallai'r sianel newydd wella gwerth cyhoeddus a hybu cystadleuaeth drwy gynnig mwy o ddewis, ysgogi'r galw neu hyrwyddo arloesedd. Fodd bynnag, mae gan gynnig y BBC hefyd botensial i niweidio cystadleuaeth deg ac effeithiol.

Fe wnaeth ein hasesiad cychwynnol o gynnig y BBC dynnu sylw at rai effeithiau posibl ar y farchnad y credwn ei bod yn briodol eu hystyried yn ein hasesiad pellach. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol⁹, (ond nid yw hon yn rhestr gyflawn):

- potensial i'r gwasanaeth newydd wasgu darlledwyr masnachol FTA (e.e. STV Group) allan;
- potensial i'r gwasanaeth newydd wasgu allan ddarparwyr newyddion ar-lein yr Alban a phapurau newydd yr Alban;
- effaith bosibl creu 80 o swyddi newyddiadurool ar fynediad at newyddiadurwyr; ac

⁷ [Assessing the impact of proposed changes to the BBC's public service activities](#), Rhagfyr 2016

⁸ Ar ôl adolygu cynnig y BBC, ynghyd â barn gan drydydd partion mewn ymateb i'n Gwahoddiad i Gyflwyno Sylwadau, rydym wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw ffactorau ychwanegol yn briodol.

⁹ Yn ogystal ag ystyried yr effeithiau posib hyn ar y farchnad, efallai y byddwn hefyd yn ystyried effeithiau perthnasol eraill posibl ar y farchnad fel rhan o'n hasesiad pellach.

- effaith bosibl buddsoddiad y BBC mewn cynnwys a gynhyrchir yn yr Alban (cadarnhaol a/neu negyddol) ar fynediad at gynnwys o'r Alban, ac ar y sector cynhyrchu yn yr Alban yn fwy cyffredinol.

Rydym yn fodlon bod rhanddeiliaid wedi cael cyfle priodol i wneud sylwadau ar PIT y BBC, a bod y BBC wedi cynnal ymchwil ansoddol a meintiol helaeth i'r farchnad a dadansoddiad economaidd i gefnogi ei asesiad o'i gynigion. Fodd bynnag, mae rhai meysydd yn yr asesiad y credwn y gallai'r BBC fod wedi rhoi sylw mwy manwl iddynt. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol (ond nid yw hon yn rhestr gyflawn):

- ystyried y gwerth cyhoeddus ychwanegol a gynhyrchir gan gynnig y BBC i werth cyhoeddus cyffredinol ei weithgareddau ar gyfer cynulleidfaoedd yr Alban (yn benodol, yr effaith ar werth cyhoeddus o ganlyniad i'r gostyngiad arfaethedig yn amlygrwydd BBC Four ar lwyfannau yn yr Alban, a chael gwared ar y rhaglenni ar gyfer yr Alban yn unig o BBC Two, yn ogystal â'r effaith ar BBC Alba);
- disgrifiad o natur buddsoddiad y BBC mewn rhaglenni newyddion ar sianel newydd BBC Scotland, ac ar gynnig newyddion ar-lein y BBC, gan gynnwys y rhan a chwaraeir gan yr 80 o swyddi newyddiaduraeth ychwanegol y mae'r BBC yn eu creu; ac
- effeithiau'r cynnig ar ddarlledwyr masnachol am ddim (yn benodol darparwyr cynnwys teledu wedi'i anelu at gynulleidfaoedd yn yr Alban, fel STV Group), darparwyr newyddion ar-lein yr Alban a phapurau newydd yr Alban.


Rydym yn ystyried bod y pwyntiau uchod yn codi pryderon a materion sy'n ddigon sylweddol i gyfiawnhau cynnal BCA.

Hefyd, rydym yn ystyried bod y gweithgareddau a gynigir gan y BBC, o'u cymryd gyda'i gilydd, yn creu un cynnig y BBC i gyflawni Gwasanaeth Cyhoeddus newydd yn y DU. Nid ydym yn ystyried y gall yr agweddau ar gynnig y BBC sy'n achosi pryderon i ni, gael eu gwahanu'n glir oddi wrth asesiad o'r cynnig cyffredinol.

Y camau nesaf

Dan y Cytundeb Fframwaith, mae gan Ofcom chwe mis i gynnal BCA i sianel deledu arfaethedig BBC Scotland. Bydd proses y BCA yn golygu ymchwil i'r farchnad a dadansoddiad economaidd a byddwn yn ystyried yr ymatebion yr ydym eisoes wedi'u derbyn gan rhanddeiliaid. Byddwn yn ceisio cwblhau ein gwaith mor gyflym ac mor effeithlon â phosibl. Byddwn yn cyhoeddi ymgynghoriad yn nodi ein barn dros dro a byddwn yn gwahodd rhanddeiliaid i wneud sylwadau ar hynny. Byddwn yn cyhoeddi ein penderfyniad terfynol erbyn 11 Gorffennaf 2018.

Yn gywir



Kevin Bakhurst